



Newyddion Pensiynau Gwent

Cylchlythyr ar gyfer Aelodau Gweithredol a Gohiriedig y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL) gyda Chronfa Bensiwn Gwent Fwyaf

Croeso gan y Rheolwr Pensiynau



Croeso i rifyn haf 2023 o Newyddion Pensiynau Gwent, ein cylchlythyr i roi'r newyddion diweddaraf i chi am y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL) a materion amserol eraill yn ymwneud â phensiynau.

Yn y rhifyn hwn cewch wybod am ddatganiad buddion blynyddol 2022/23, cyfraddau cyfrannu a throthwyon 2023/24, newidiadau i ailbriso pensiwn a'r lwfans blynyddol, partneriaid sy'n cyd-fyw, adran 50/50, seiberddiogelwch a chynlluniau twyllodrus yn ymwneud â phensiynau.

Cofion Gorau

Jo Griffiths

Eich Datganiad Buddion Blynyddol 2023/23

Mae eich Datganiad Pensiwn ar gyfer 2022/23 ar gael tan 31 Awst 2023 ar eich cyfrif Fy Mhensiwn Ar-lein

Os nad ydych eto wedi cofrestru i weld eich cyfrif Fy Mhensiwn Ar-lein

Ewch at ein gwefan www.cronfabensiwnngwent.co.uk a chliciwch ar ddolen Fy Mhensiwn Ar-lein. **Os ydych yn defnyddio dyfais symudol, bydd gofyn i chi glicio ar yr eicon tair llinell ger y chwyddwydr ar ben uchaf yr hafan ar y dde.**

Mae yna bedwar cam syml i gofrestru gyda Fy Mhensiwn Ar-lein

Cam 1

Cliciwch ar **Cofrestrwch ar gyfer fy**

Mhensiwn

Cam 2

Cliciwch ar **Cofrestru ar gyfer fy Mhensiwn**

Cam 3

Teipiwch eich **Cyfenw, Rhif Yswiriant Gwladol, Dyddiad Geni** a **Chyfeiriad E-bost** a chliciwch ar Cofrestru

Cam 4

Os oes cyfeiriad e-bost gennym ar eich cofnod byddwn yn anfon dolen actifadu at y cyfeiriad hwnnw ac nid yr un yr ydych yn ei ddefnyddio wrth gofrestru. **Os ydych wedi newid eich cyfeiriad e-bost a heb ddweud wrthym, dylech ein ffonio i sicrhau bod y ddolen yn mynd i'r cyfeiriad e-bost cywir.**

Os nad oes cyfeiriad e-bost gennym ar eich cofnod, **byddwn yn anfon cod actifadu atoch yn y post o fewn 3 i 5 niwrnod. Os yw'ch cyfeiriad wedi newid ac nid ydych wedi dweud wrthym, ffoniwch ni i sicrhau bod y cod yn mynd i'r cyfeiriad cywir.**

Sut i weld eich Datganiad Pensiwn ar gyfer 2022/23

Pan fyddwch wedi mewngofnodi i'ch cyfrif Fy Mhensiwn Ar-lein, cliciwch ar y panel **Datganiad Budd-daliadau Blynyddol**. Bydd hwn wedyn yn dangos y datganiad budd-daliadau pensiwn diweddaraf ar gyfer eich cyfrif pensiwn.

Gallwch weld canllaw i ddeall eich datganiad pensiwn o dan **Dogfennau'r Cynllun** yn y panel **Dogfennau**.

Sut i weld eich Cylchlythyr Blynyddol—pan fyddwch wedi mewngofnodi i'ch cyfrif Fy Mhensiwn Ar-lein, cliciwch ar **Dogfennau'r Cynllun** yn y panel **Dogfennau**.

Cyfraddau Cyfraniadau a Chyfyngiadau Cynilo 2023/24

Cyflog Blynnyddol	Cyfraniad	
	Prif	50/50
Hyd at £16,500	5.5%	2.75%
£16,501—£25,900	5.8%	2.9%
£25,901—£42,100	6.5%	3.25%
£42,101—£53,300	6.8%	3.4%
£53,301—£74,700	8.5%	4.25%
£74,701—£105,900	9.9%	4.95%
£105,901—£124,800	10.5%	5.25%
£124,801—£187,200	11.4%	5.7%
£187,201 neu fwy	12.5%	6.25%

Lwfans Blynnyddol	£60,000
Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (CPY)	£7,579

Newidiadau i'r Lwfans Oes (LO)

Beth oedd y LO?

Roedd y Lwfans Oes (LO) yn gyfyngiad ar gyfanswm gwerth y cynilion pensiwn y gallai aelodau eu cronni yn ystod eu hoes heb dalu tâl treth. Dyma gyfanswm gwerth yr holl gynlluniau pensiwn y mae aelod wedi talu i mewn iddynt ac nid y CPLIL yn unig. Y cyfyngiad ar y lwfans oes oedd £1,073,100.


Sut y mae'n effeithio ar aelodau a phryd fydd yn cael ei ddefnyddio?

Pryd bynnag y telir buddion pensiwn i aelod, mae'r Gronfa Bensiwn yn gwneud gwiriad LO. Gofynnwn i aelodau ddweud wrthym am unrhyw ddarparwyr pensiwn eraill y maent wedi talu i mewn gyda nhw. Rydym yn cyfrifo i weld a yw cyfanswm gwerth eu pensiynau dros y cyfyngiad LO neu o dano.

Pan fydd yn dod i dalu buddion pensiwn aelodau, mae hyn yn defnyddio canran o'u lwfans oes ac rydym yn dweud wrth yr aelod faint sydd wedi cael ei ddefnyddio.

Newidiadau Allweddol

- Er mis Ebrill 2023 nid yw'r tâl LO yn berthnasol mwyach ac o fis Ebrill 2024 ni fydd y LO yn bodoli mwyach.
- Bydd treth ar gyfandaliadau dros y LO yn cael eu trethu ar gyfradd ymyl-ol treth incwm unigolyn, yn hytrach na 55%.



Cliciwch ar y ddolen i fynd at wybodaeth am dreth neu ewch i www.lgpsmember.org

Cewch ragor o wybodaeth am CPLIL ar ein gwefan, www.cronfabensiwnngwent.co.uk neu'r wefan genedlaethol i aelodau CPLIL, www.lgpsmember.org

Newidiadau i Ailbrisiad Cyfrifon Pensiwn a'r Lwfans Blynyddol

Beth yw'r Lwfans Blynyddol?

Mae'r lwfans blynyddol yn gyfyngiad ar dwf cynilion pensiwn aelodau bob blwyddyn cyn y byddent yn gorfod talu tâl treth lwfans blynyddol.

Mae'r Gronfa Bensiwn yn cyfrifo'r lwfans blynyddol a ddefnyddir bob blwyddyn i bob aelod.

Mae'r llywodraeth wedi newid y rheoliadau, gan newid sut y mae'r lwfans blynyddol yn cael ei gyfrifo a phryd.

Pam y gwnaethpwyd y newid?

Ers blwyddyn dreth 2015/16 newidiodd Trysorlys Ei Fawrhydi y cyfnod ar gyfer mesur twf pensiynau er mwyn cyfateb â'r flwyddyn dreth (6 Ebrill — 5 Ebrill bob blwyddyn). Mae'r cyfrifiad yn cynnwys lwfans ar gyfer chwyddiant.

Fodd bynnag, roedd y chwyddiant a ganiatawyd yng nghyfrifiad y lwfans blynyddol a'r gyfradd ailbrisiad a ddefnyddiwyd i ailbrisiad cyfrifon pensiwn aelodau bob blwyddyn, yn wahanol.

Yn y gorffennol, roedd y gwahaniaeth rhwng y ddwy gyfradd yn fach am fod chwyddiant wedi bod yn weddol sefydlog.

Fodd bynnag, gan fod chwyddiant yn 10.1% ym mis Medi 2022 ac y byddai'r chwyddiant a fyddai'n cael ei ganiatáu yng nghyfrifiad y lwfans blynyddol wedi bod yn 3.1%, byddai hyn wedi arwain at wahaniaeth o 7% rhwng y ddau ffigur.

Byddai hyn wedi golygu y byddai chwyddiant o 7% wedi effeithio ar y twf yn y cyfrifiad lwfans blynyddol ac y byddai mwy o aelodau wedi gorfod talu tâl treth lwfans blynyddol.

Mae'r newidiadau i'r rheoliadau wedi cael gwared ar yr effaith hon.

Beth sydd wedi newid?

Newidiwyd y dyddiad ailbrisiad ar gyfer cyfrifo pensiwn aelodau o 1 Ebrill i 6 Ebrill yn 2023 a bydd ar 6 Ebrill bob blwyddyn yn y dyfodol, i gyd-fynd â'r flwyddyn dreth.

Ym blwyddyn dreth 2022/23 ni fydd cyfrifiad y lwfans blynyddol yn cynnwys unrhyw ailbrisiad oherwydd ni ddigwyddodd ailbrisiad cyfrifon pensiynau aelodau hyd nes 6 Ebrill.

Yn y dyfodol, bydd y cynnydd mewn chwyddiant a ddefnyddiwyd i ailbrisiad cyfrifon pensiwn aelodau a chyfrifiadau'r lwfans blynyddol, yr un peth, oherwydd y newid.

Oherwydd hynny mae'n decach i aelodau wrth fesur twf pensiwn, gan ei fod yn cael gwared ar effaith chwyddiant.

Y Mynegai Prisiau Defnyddwyr yw'r dull o fesur chwyddiant a ddefnyddir ar gyfer yr uchod.

Rydym yn dweud wrth aelodau a fydd yn mynd dros y trothwy ar gyfer y lwfans blynyddol ac yn dweud wrthynt beth sydd arnynt angen ei wneud.

Mae'r CPLIL yn rhoi tawelwch meddwl a sicrwydd ariannol i deulu aelodau, a rhoddir yswiriant bywyd a phensiynau ar unwaith i ŵyr/gwagedd, partneriaid sifil, plant cymwys a phartneriaid cymwys sy'n cyd-fyw os yw'r aelod yn marw.

Mae partner cymwys sy'n cyd-fyw yn bartner yr ydych yn byw gydag ef/hi ac ar ddyddiad eich marwolaeth roeddech chi a'ch partner yn bodloni'r holl amodau canlynol am o leiaf ddwy flynedd: -

- Rydych wedi bod yn rhydd i briodi'ch gilydd neu ffurfio partneriaeth sifil â'ch gilydd
- Roeddech yn byw gyda'ch gilydd fel petaech yn bâr priod neu'n bartneriaid sifil;
- Nid oes un ohonoch wedi bod yn byw gyda rhywun arall fel petaech yn bâr priod neu'n bartneriaid sifil; a
- Mae eich partner yn ddibynol arnoch chi, neu mae wedi bod yn ddibynol arnoch chi neu roeddech yn dibynnu ar eich gilydd yn ariannol.

Telir pensiynau i bartneriaid cymwys sy'n cyd-fyw dim ond os yw'r aelod wedi talu i mewn i CPLIL ar ôl 31 Mawrth 2008.

Cofiwch, adeg hawlio, y bydd gofyn rhoi tystiolaeth o'r uchod e.e. biliau treth gyngor/cyfleustodau ar y cyd, manylion cyfrif banc ar y cyd, copïau o archddyfarniad absoliwt os yn briod yn flaenorol.

Os ydych yn dymuno cofrestru eich partner sy'n cyd-fyw gyda chi, ar eich cyfrif pensiwn, gallwch lawrlwytho ffurflen partner sy'n cydfyw oddi ar ein gwefan, www.cronfabensiwnngwent.co.uk/ffurflenni-a-chyhoeddiadau/cohabiting-partner-form/

Cynlluniwyd adran 50/50 y CPLIL i helpu aelodau i aros yn y cynllun ac i barhau i gronni buddion pensiwn gwerthfawr yn hytrach na gadael y cynllun yn gyfan gwbl.

Os bydd aelod yn ymuno ag adran 50/50 y CPLIL mae'n talu hanner ei gyfradd gyfrannu arferol, yn cronni hanner y pensiwn ond yn dal i gael yr un darpariaeth bywyd a salwch a phetai yn y prif adran.

Wedi i chi ymuno ag adran 50/50 gallwch symud yn ôl i'r prif adran ar unrhyw adeg. Mae yna adegau hefyd pan fydd yn rhaid i'ch cyflogwr eich symud yn ôl i mewn i'r prif adran, er enghraifft yn ystod:-

- Cofrestru awtomatig
- Salwch pan fydd eich cyflog yn gostwng i sero
- Cyfnod mamolaeth neu fabwysiadu pan fydd eich cyflog yn gostwng i sero

Gallwch lawrlwytho ffurflen gais adran 50/50 oddi ar ein gwefan, www.cronfabensiwnngwent.co.uk/ffurflenni-a-chyhoeddiadau/election-to-join-the-50-50-section-of-the-lgps-form/

Menter Twyll Genedlaethol (MTG)

Mae gan Gronfa Bensiwn Gwent Fwyaf (Torfaen) ddyletswydd i ddiogelu'r arian yr ydym yn ei weinyddu. Mae hyn y cynnwys cymryd rhan ym Menter Twyll Genedlaethol y Llywodraeth, ac efallai byddwn yn rhannu gwybodaeth gyda chyrff eraill sy'n gyfrifol am archwilio neu weinyddu arian cyhoeddus at ddibenion atal a datgelu twyll.

Mae'r Fenter yn gweithredu o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 i amddiffyn y pwrs cyhoeddus trwy gymharu data ar draws sefydliadau'r sector cyhoeddus, i atal a datgelu twyll.

Cyflawnir ymarfer y Cynllun Twyll Cenedlaethol bob 2 flynedd.

Mae'r Fenter yn gweithredu o dan y 'Cod Ymarfer Cymharu Data' er mwyn sicrhau cydymffurfiaid â'r gyfraith, yn arbennig y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR). Gallwch ddarllen mwy am gymharu data a lawrlwytho'r Cod ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru:

www.audit.wales/cy/amdanom-ni/menter-

Seiberddiogelwch



Seiberddiogelwch yw'r gweithgaredd o ddiogelu ein dyfeisiau fel ffonau clyfar, gliniaduron, cyfrifiaduron a rhwydweithiau cyfrifiadurol rhag cael eu heffeithio gan drosedd seiber a throseddwy seiber.

Mae hyn wedi dod yn fwy pwysig i ni fel cymdeithas gyda mwy o ddibyniaeth ar ddyfeisiau a'r rhyngwyd i ni gwblhau gweithgareddau dydd i ddydd, o fancio a siopa ar-lein i e-bost a chyfryngau cymdeithasol.

Mae'n bwysig i ni i gyd gymryd y camau cywir i ddiogelu ein data a dyfeisiau rhag cael eu dwyn neu eu difrodi gan droseddwy.

Defnyddio Cyfrineiriau

Dewiswch un cryf, Gwnewch e'n gofiadwy a cadwch e'n Diogel

Beth os ydych chi'n credu bod rhywun wedi dwyn eich cyfrinair?

Mae'r Ganolfan Seiberddiogelwch Cenedlaethol (NCSC) yn awgrymu defnyddio'r wefan www.haveibeenpwned.com i weld a yw eich gwybodaeth wedi cael ei wneud yn gyhoeddus fel rhan o doramod data.

Beth yw gwe-rwydo?

Gwe-rwydo yw pan fo troseddwy yn cysylltu ag unigolion trwy e-bost, ffôn neu neges destun gan esgus bod yn gwmni dilys i'ch twyllo chi i ddatgelu eich gwybodaeth bersonol iddyn nhw. Maen nhw'n ceisio gwneud i e-byst edrych yn ddilys ac maen nhw hyd yn oed yn clonio gwefannau go iawn i ennill eich hyder. Bydd troseddwy yn danfon yr e-byst yma at filiynau o bobl yn y gobaith y byddwch chi'n clicio ar ddolenni drwg neu atodiadau i gyflwyno firsau i'ch cyfrifiadur.

Rydym wedi paratoi cyngor i chi ynghylch delio ag e-byst amheus er mwyn ei wneud yn fwy anodd i chi gael eich targedu. Os ydych chi'n credu eich bod chi wedi cael eich targedu, gallwch fynd at wefan NCSC www.ncsc.gov.uk/phishing ddysgu mwy.

Os ydych chi'n credu eich bod chi wedi cael eich targedu, gallwch fynd at wefan NCSC www.ncsc.gov.uk/phishing am ragor o wybodaeth. Os ydych chi wedi colli arian dylech ddweud wrth Action Fraud am y drosedd. Gallwch wneud hynny ar www.actionfraud.police.uk

November 2022 | V.01

Don't let a scammer enjoy your retirement



Find out how pension scams work, how to avoid them and what to do if you suspect a scam.



Scammers can be articulate and financially knowledgeable, with credible websites, testimonials and materials that are hard to distinguish from the real thing. Scammers design attractive offers to persuade you to transfer your pension pot to them or to release funds from it. It is then invested in unusual and high-risk investments like overseas property, renewable energy bonds, forestry, storage units, or simply stolen outright.

Scam tactics include:



- contact out of the blue



- promises of high / guaranteed returns



- free pension reviews



- access to your pension before age 55



- pressure to act quickly

If you suspect a scam, report it

- Report to the Financial Conduct Authority (FCA)
by contacting their Consumer Helpline on 0800 111 6768 or using the reporting form at www.fca.org.uk
- Report to Action Fraud
on 0300 123 2040 or at www.actionfraud.police.uk
- If you're in the middle of a transfer, contact your provider immediately and then get in touch with www.moneyhelper.org.uk

www.fca.org.uk/scamsmart